Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2024 – Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Blwyddyn archwilio: 2023-24

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2025

Cyfeirnod y ddogfen: 4697A2025

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 5

Adroddiad manwl

Archwiliad o'r cyfrifon 7

Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth o ran defnyddio adnoddau 9

Atodiadau

Atodiad 1 – adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf 18

Atodiad 2 – ffi archwilio 21

Atodiad 3 – risgiau mewn perthynas ag archwilio'r cyfrifon 22

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r canfyddiadau o'm gwaith archwilio yn 2024 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (y Bwrdd Iechyd) a wnaed i gyflawni fy nghyfrifoldebau dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r Ddeddf honno'n ei gwneud yn ofynnol i mi:

- archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd, a'u gosod gerbron y Senedd;
- fy argyhoeddi fy hun bod gwariant ac incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd a'u bod yn unol â'r awdurdodau; a hefyd
- fy argyhoeddi fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'n defnyddio adnoddau.

2 Rwy'n nodi fy nghanfyddiadau ar y cyfan dan y penawdau canlynol:

- Archwiliad o'r cyfrifon
- Trefniadau ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio adnoddau

3 Digwyddodd gwaith archwilio eleni ar adeg pan oedd cyrff y GIG yn parhau i ymateb i gyfres eang o heriau sy'n gysylltiedig â'r argyfwng costau byw, argyfwng yr hinsawdd, pwysau chwyddiannol ar gyllid cyhoeddus, prinderau yn y gweithlu, ac ystâd sy'n heneiddio. Hefyd, mae cyrff y GIG yn dal i ymdrin â gwaddol pandemig COVID-19. Cafodd fy rhaglen waith ei dylunio, felly, i roi'r sicrwydd gorau i bobl Cymru bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda.

4 Fe wnaethom barhau i weithio ac ymgysylltu o bell gan mwyaf, gan ddefnyddio technoleg, gyda pheth gwaith archwilio ar y safle'n cael ei wneud lle'r oedd yn briodol gwneud hynny.

5 Cafodd y terfyn amser ar gyfer cyflwyno'r cyfrifon archwiliedig ei fyrhau o ddwy wythnos o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol i 15 Gorffennaf 2024. Fe ardystiwyd y datganiadau ariannol ar 12 Gorffennaf 2024, gan olygu y cwrddwyd â'r terfyn amser. Mae hyn yn adlewyrchu cydymdrech wych gan fy staff a chan swyddogion y Bwrdd Iechyd.

6 Mae ffocws a dull fy ngwaith archwilio perfformiad yn dal i gyd-fynd â'r heriau ar ôl y pandemig sy'n wynebu'r GIG yng Nghymru ac fe'u cyflawnir yn unol â safonau archwilio INTOSAI[1].

[1] Sefydliad ymbarél byd-eang ar gyfer y gymuned archwilio perfformiad yw INTOSAI (International Organisation of Supreme Audit Institutions). Corff anllywodraethol ydyw a chanddo statws ymgynghorol arbennig gyda Chyngor Economaidd a Chymdeithasol (ECOSOC) y Cenhedloedd Unedig.

7 Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb o'r materion a gyflwynwyd mewn adroddiadau mwy manwl i'r Bwrdd Iechyd eleni (gweler **Atodiad 1**). Rwyf hefyd yn cynnwys crynodeb o statws gwaith sy'n dal ar y gweill, ond nad yw wedi cael ei gwblhau eto.

8 Mae **Atodiad 2** yn cyflwyno'r amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd angen i mi ei chodi i dalu costau gwneud fy ngwaith, o'i gymharu â'r ffi wreiddiol a nodwyd yng Nghynllun Archwilio 2024.

9 Mae **Atodiad 3** yn nodi'r risgiau mewn perthynas ag archwilio'r cyfrifon a nodwyd yn fy Nghynllun Archwilio 2024 a sut yr aethpwyd i'r afael â hwy drwy'r archwiliad.

10 Mae'r Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Cyllid a'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol wedi cytuno ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn. Fe wnaethom ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar 20 Mawrth 2024. Bydd y Bwrdd yn cael yr adroddiad yn un o gyfarfodydd diweddarach y Bwrdd. Rydym yn annog y Bwrdd Iechyd yn gryf i drefnu ei fod yn cael ei gyhoeddi'n ehangach. Byddwn yn trefnu bod yr adroddiad ar gael i'r cyhoedd ar wefan Archwilio Cymru ar ôl i'r Bwrdd ei ystyried.

11 Hoffwn ddiolch i staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd am eu help a'u cydweithrediad trwy gydol fy archwiliad.

# Negeseuon allweddol

## Archwiliad o'r cyfrifon

12 Rwyf wedi dod i'r casgliad bod cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi'u paratoi'n briodol a'u bod yn berthnasol gywir ac rwyf wedi rhoi barn archwilio ddiamod arnynt. Nid adnabu fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol mewn rheolaethau mewnol (a oedd yn berthnasol i'm harchwiliad i); fodd bynnag, fe ddygais rai materion i sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio ar gyfer gwella.

13 Fe wnes i amodi fy marn ynglŷn â rheoleidd-dra. Yn gyson â blynyddoedd blaenorol, fe amodwyd y farn ynglŷn â rheoleidd-dra am na wnaeth y Bwrdd Iechyd gwrdd â'i ddyraniad adnoddau refeniw dros y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben yn 2023-2024.

14 Ochr yn ochr â'm barn archwilio, fe osodais adroddiad o sylwedd ar gyfrifon y Bwrdd Iechyd i amlygu'r methiant i fantoli'r cyfrifon a'r methiant i fod â chynllun tair blynedd cymeradwy.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth o ran defnyddio adnoddau

15 Mae fy rhaglen o waith Archwilio Perfformiad wedi fy arwain at y casgliadau canlynol:

- mae'r Bwrdd Iechyd yn gwella agweddau ar ei drefniadau llywodraethu, ac fe wnaed cynnydd da i sefydlogi'r Bwrdd. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa

ariannol ar gyfer 2024-25 yn dal i fod yn her eithriadol, ac mae angen gweithredu ar frys ac yn barhaus i reoli'r ffactorau sy'n dylanwadu ar gostau. Mae angen dull cynllunio strategol wedi'i ddiweddaru a'i ail-alinio hefyd i bennu cyfeiriad tuag at fodelau gofal sy'n cefnogi iechyd da ar gyfer y boblogaeth a gwasanaethau sy'n gynaliadwy o safbwynt clinigol ac ariannol.

- er bod y Bwrdd Iechyd wedi cyrraedd ei darged o ran diffyg a reolir ar gyfer 2023-24, mae ganddo hanes gwael yn gyffredinol o gyrraedd ei dargedau arbedion a chyflawni arbedion cylchol. O ystyried sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd sy'n her eithriadol, mae taer angen iddo ddangos y gall reoli'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ei gostau a chyflymu gwaith i wreiddio dull mwy cynaliadwy o ymdrin â'r arbedion ariannol y mae angen iddo eu cyflawni.
- mae angen cryfhau trefniadau llywodraethu gweithredol yng ngrwpiau gwasanaethau'r Bwrdd Iechyd. Mae angen gweithredu i ymdrin â swyddi gwag hirsefydlog a dibyniaeth ar rolau interim, ac i gryfhau trefniadau uwchgyfeirio, prosesau adrodd ar ansawdd a diogelwch, a'r modd y rheolir risgiau. Mae angen i'r rhaglen Ailddylunio Gwasanaethau Meddygol Acíwt gael ei chwblhau'n gyflym, ynghyd ag asesiad o'r capasiti gweithredol y mae ei angen o fewn grwpiau gwasanaethau i ategu'r trefniadau llywodraethu gofynnol.
- er bod y Bwrdd Iechyd wedi dechrau trawsnewid ei wasanaethau cleifion allanol, cyfyngedig yw'r cynnydd a wnaed ganddo i roi ein hargymhellion archwilio blaenorol ar waith ac mae'n dal i gario risgiau clinigol sylweddol sy'n gysylltiedig ag oedi gydag apwyntiadau dilynol.
- mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd da i fynd i'r afael â'm hargymhellion archwilio blaenorol ynghylch gofal sylfaenol. Mae wedi cryfhau ei drefniadau ar gyfer dadansoddi cynlluniau ariannol, a ffyrdd newydd o weithio, ac mae'n bwrw ymlaen â gwaith i gryfhau Cydweithfeydd Clwstwr Lleol a symud adnoddau o ofal eilaidd i ofal sylfaenol. Fodd bynnag, mae capasiti gwasanaethau gofal sylfaenol canolog yn dal i fod dan bwysau, ac nid oes gan y Bwrdd Iechyd ddealltwriaeth gynhwysfawr am ei weithlu gofal sylfaenol. Cyfyngedig yw'r trefniadau ar gyfer goruchwylio a chraffu ar ofal sylfaenol gan y Bwrdd a phwyllgorau ac mae angen cryfhau'r broses o adrodd ar berfformiad a deilliannau gofal sylfaenol.
- mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau gweithredu priodol i ymdrin â'i heriau o ran y gweithlu. Fodd bynnag, mae angen iddo sicrhau bod ganddo ddigon o adnoddau cynllunio'r gweithlu i roi cymorth i gyflawni ei Strategaeth Pobl newydd a gwella goruchwyliaeth ar lefel pwyllgorau ar gynllun Nodau, Dulliau a Deilliannau (GMO) Cyfarwyddiaeth y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, sy'n rhoi cymorth i gyflawni'r Strategaeth Pobl.

16 Caiff y canfyddiadau hyn eu hystyried ymhellach yn yr adrannau canlynol.

# Adroddiad manwl

## Archwiliad o'r cyfrifon

17 Mae paratoi cyfrifon blynyddol yn rhan hanfodol o ddangos stiwardiaeth ar arian cyhoeddus. Trwy gyfrwng y cyfrifon y mae'r sefydliad yn dangos ei berfformiad ariannol ac yn nodi ei asedau net, ei gostau gweithredu net, enillion a cholledion, a llifoedd arian parod. Mae fy archwiliad blynyddol o'r cyfrifon hynny'n darparu barn ynglŷn â'u cywirdeb a defnyddio arian cyhoeddus yn briodol ('rheoleidd-dra').

18 Roedd fy Nghynllun Archwilio ar gyfer 2024 yn nodi'r risgiau allweddol mewn perthynas ag archwilio'r cyfrifon ar gyfer 2023-24 a manylir ar y rhain ynghyd â sut yr aethpwyd i'r afael â hwy yn **Arddangosyn 4**, **Atodiad 3**.

19 Caiff fy nghyfrifoldebau am archwilio'r cyfrifon eu disgrifio yn fy nghyhoeddiadau Datganiad o Gyfrifoldebau, sydd ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

### Cywirdeb a pharatoi cyfrifon 2023-24

20 Deuthum i'r casgliad bod cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi cael eu paratoi'n briodol a'u bod yn berthnasol gywir ac rwyf wedi rhoi barn archwilio ddiamod arnynt. Nid adnabu fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol mewn rheolaethau mewnol (a oedd yn berthnasol i'm harchwiliad i); fodd bynnag, dygais rai materion i sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio ar gyfer gwella.

21 Cefais y cyfrifon drafft erbyn y terfyn amser. Cafodd llawer o bapurau gwaith eu paratoi yn barod ar gyfer dechrau'r broses archwilio ond nid pob un. I reoli hyn, fe wnaeth Archwilio Cymru a'r adran Gyllid gydweithio i raddfa amser y cytunwyd arni ar gyfer darparu papurau gwaith i reoli camau cyntaf yr archwiliad. Rydym yn ymwybodol bod Archwilio Cymru, ynghyd â disgwyliadau'r GIG yn ei gyfanrwydd, yn paratoi i ddod â therfyn amser yr archwiliad ymlaen ymhellach fel rhan o broses archwilio cyfrifon 2024-25. I gwrdd â'r terfynau amser hyn, bydd rhaid i bapurau gwaith fod wedi cael eu cwblhau'n llawn ac ar gael ar ddechrau'r archwiliad.

22 Rhaid i mi adrodd ar faterion sy'n deillio o'm gwaith wrth y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu (y Pwyllgor Archwilio) i gael eu hystyried cyn fy mod yn cyhoeddi fy marn archwilio ynglŷn â'r cyfrifon. Fe wnaeth fy Arweinydd Ymgymeriad Archwilio Ariannol y materion hyn yn hysbys ar 11 Gorffennaf 2024. Mae **Arddangosyn 1** yn crynhoi'r materion allweddol a nodwyd yn yr adroddiad hwnnw.

**Arddangosyn 1: materion a wnaed yn hysbys i'r Pwyllgor Archwilio**

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Camddatganiadau nas cywirwyd | Roedd dau gamddatganiad nas cywirwyd. |

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Camddatganiadau a gywirwyd | Fe wnaed nifer o addasiadau i'r cyfrifon drafft a oedd yn ymwneud yn bennaf â naratif ychwanegol i ddarparu mwy o eglurder. |
| Materion arwyddocaol eraill | Fe amodais fy marn ynglŷn â rheoleidd-dra ac fe gyhoeddais adroddiad o sylwedd am na chyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ddyletswydd ariannol i fantoli'r cyfrifon ar gyfer y tair blynedd a ddaeth i ben yn 2023-24. |

23 Fe gynhaliais adolygiad o ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan hefyd. Deuthum i'r casgliad bod yr wybodaeth gysoni parti i gontract yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2024 a bod y ffurflen wedi cael ei pharatoi yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys.

24 Mae fy archwiliad ar wahân o gyfrifon y cronfeydd elusennol wedi cael ei gwblhau'n sylweddol. Nid oes unrhyw faterion wedi codi hyd yma. Byddaf yn darparu fy marn archwilio ym mis Ionawr 2025.

## Rheoleidd-dra trafodiadau ariannol

25 Rhaid i drafodiadau ariannol y Bwrdd Iechyd fod yn unol â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Rhaid i'r Bwrdd Iechyd fod â'r pwerau i gael yr incwm ac i ysgwyddo'r gwariant. Mae ein gwaith yn adolygu'r pwerau hyn ac yn profi nad oes unrhyw elfennau perthnasol o incwm na gwariant nad oes gan y Bwrdd Iechyd y pwerau i'w cael neu eu hysgwyddo.

26 Lle nad yw Bwrdd Iechyd yn mantoli'r cyfrifon, mae ei wariant yn mynd y tu hwnt i'w bwerau i wario ac felly rhaid i mi amodi fy marn ynglŷn â rheoleidd-dra.

27 Ni wnaeth y Bwrdd Iechyd fantoli'r cyfrifon ar gyfer y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024, sydd y tu hwnt i'w bwerau i wario yn fy nhyb i, felly rwyf wedi cyhoeddi barn amodol ynglŷn â rheoleidd-dra'r trafodiadau ariannol yng nghyfrifon y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2023-24.

28 Yn 2023-24, adroddodd y Bwrdd Iechyd ei fod wedi mantoli'r cyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, aeth y Bwrdd Iechyd y tu hwnt i'w derfyn adnoddau cronnus, trwy wario £39.374 miliwn yn fwy na'r £3,519 miliwn yr oedd wedi ei awdurdodi i'w wario yn y cyfnod o dair blynedd rhwng 2021-22 a 2023-24.

29 Ochr yn ochr â'm barn archwilio, gosodais adroddiad o sylwedd ar gyfrifon y Bwrdd Iechyd i amlygu'r methiant i fantoli'r cyfrifon a'r methiant i fod â chynllun tair blynedd cymeradwy.

30 Mae gennyf y pŵer i osod adroddiad o sylwedd ar gyfrifon yr Awdurdod ochr yn ochr â'm barnau pan fo arnaf eisiau amlygu materion. Yn sgîl y materion a nodir uchod, fe gyhoeddais adroddiad o sylwedd a oedd yn nodi'r manylion ffeithiol.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth o ran defnyddio adnoddau

31 Mae'n ofynnol yn statudol fy mod yn fy argyhoeddi fy hun bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth o ran defnyddio'i adnoddau. Rwyf wedi gwneud amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- asesu i ba raddau y mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi'r argymhellion a wnaed gennyf yn 2019 ynghylch gofal sylfaenol ar waith, yn ogystal ag i ba raddau y mae'r Bwrdd a/neu ei bwyllgorau'n ystyried materion sy'n ymwneud â gofal sylfaenol a bod capasiti a gallu priodol i gyflawni blaenoriaethau;
- adolygu effeithiolrwydd trefniadau cynllunio gweithlu'r Bwrdd Iechyd;
- adolygu effeithiolrwydd trefniadau arbed costau'r Bwrdd Iechyd;
- adolygu trefniadau llywodraethu gweithredol y Bwrdd Iechyd o fewn grwpiau gwasanaethau i oruchwylio cyllid, perfformiad ac ansawdd a diogelwch gwasanaethau, a'r llifoedd sicrwydd o'r grwpiau gwasanaethau i'r Bwrdd a'i bwyllgorau;
- asesu i ba raddau y mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi'r argymhellion a wnaed gennyf yn 2015 ynghylch gwasanaethau dilynol i gleifion allanol ar waith; a
- chynnal asesiad strwythuredig o drefniadau corfforaethol y Bwrdd Iechyd i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol, ac yn ddarbodus.

32 Caiff fy nghasgliadau yn seiliedig ar y gwaith hwn eu nodi isod.

### Adolygiad dilynol o ofal sylfaenol

33 Fe wnaeth fy adolygiad archwilio i ba raddau y mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi'r argymhellion blaenorol a wnaed gennyf yn 2019 ynghylch gofal sylfaenol ar waith. Fe wnes i hefyd asesu i ba raddau y mae'r Bwrdd a/neu ei bwyllgorau'n rhoi ystyriaeth reolaidd i faterion sy'n ymwneud â gofal sylfaenol, a pha un a yw tîm gwasanaethau gofal sylfaenol canolog y Bwrdd Iechyd yn meddu ar y capasiti a'r gallu priodol.

34 Canfu fy ngwaith fod y Bwrdd Iechyd wedi ymdrin â chamau gweithredu a oedd yn ymwneud â chynllunio ariannol a ffyrdd newydd o weithio a'i fod yn bwrw ymlaen â gwaith i gryfhau Cydweithfeydd Clwstwr Lleol a symud adnoddau o ofal eilaidd i ofal sylfaenol. Fodd bynnag, nid oes ganddo ddealltwriaeth gynhwysfawr am ei weithlu gofal sylfaenol.

35 Er bod gofal sylfaenol wedi'i gynnwys yng nghynllun corfforaethol y Bwrdd Iechyd, nid oes strategaeth na gweledigaeth hirdymor wedi'i neilltuo i ofal sylfaenol. Cyfyngedig yw'r trefniadau i oruchwylio a chraffu ar yr heriau sy'n wynebu gofal sylfaenol ar lefel y Bwrdd, ac fe allai ystyriaeth mewn pwyllgorau gael ei gwreiddio'n fwy systematig o fewn busnes rheolaidd. Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau digonol i fonitro'r modd y cyflawnir cynlluniau gofal sylfaenol, ond mae angen cryfhau goruchwyliaeth ar berfformiad.

36 Mae trefniadau corfforaethol y Bwrdd Iechyd i oruchwylio gofal sylfaenol yn effeithiol yn gyffredinol gyda llinellau atebolrwydd eglur. Fodd bynnag, mae adnoddau a chapasiti o fewn ei Dîm Gwasanaethau Sylfaenol canolog yn dal i fod dan bwysau ac mae angen cryfhau trefniadau cynllunio ar gyfer olyniaeth yn y tîm hwnnw.

## Trefniadau cynllunio'r gweithlu

37 Fe wnaeth fy adolygiad archwilio pa un a oes gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol i roi cymorth i gynllunio'r gweithlu. Fe ganolbwyntiodd ar gynllunio'r gweithlu'n strategol ac yn weithredol, sut y mae'n defnyddio gwybodaeth am y gweithlu a sut y mae'n gweithio gyda'i randdeiliaid i ddatblygu datrysiadau. Fe wnaeth y gwaith hefyd ystyried capasiti a gallu'r sefydliad i adnabod heriau byrdymor a hirdymor allweddol o ran y gweithlu ac ymdrin â hwy, yn ogystal â sut y mae'n monitro pa un a yw ei ddull o weithredu'n gwneud gwahaniaeth.

38 Canfu fy ngwaith fod y Bwrdd Iechyd yn wynebu heriau sylweddol o ran y gweithlu ar draws ystod o wasanaethau a phroffesiynau. Mae Strategaeth Pobl newydd y Bwrdd Iechyd yn gam cadarnhaol ymlaen, sy'n darparu ffocws strategol tymor hwy a llwyfan i roi arweiniad i weithgareddau cynllunio'r gweithlu. Er bod pocedi o arfer da i roi cymorth i drawsnewid ac ailddylunio gwasanaethau, mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod yr angen i wella trefniadau cynllunio'r gweithlu a sut y defnyddir data i ategu hynny.

39 Mae gan y Bwrdd Iechyd fwriad eglur i wella capasiti a gallu cynllunio'r gweithlu trwy gynorthwyo grwpiau gwasanaethau i gymryd mwy o berchnogaeth ar eu trefniadau cynllunio'r gweithlu. Fodd bynnag, cyfyngedig yw'r capasiti corfforaethol sydd gan y Bwrdd Iechyd wedi'i neilltuo i gynllunio'r gweithlu ac mae'n dibynnu ar bartneriaid busnes a rheolwyr gweithredol i gynllunio'r gweithlu'n effeithiol. Mae Tîm Cynllunio'r Gweithlu'n cynnig amrywiaeth o hyfforddiant i gefnogi timau gweithredol; fodd bynnag, mae angen iddo benderfynu a oedd yr hyfforddiant a ddarparwyd yn gwneud gwahaniaeth i ansawdd cynlluniau gweithlu'r gwasanaethau.

40 Mae gan y Bwrdd Iechyd ddealltwriaeth dda am y risgiau a allai ei atal rhag gwireddu ei uchelgeisiau o ran y gweithlu, ond bach iawn fu effaith camau gweithredu i liniaru'r risgiau hyn hyd yma. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau gweithredu priodol i fynd i'r afael â'i heriau cyfredol o ran y gweithlu, trwy ystod o weithgareddau recriwtio a chadw.

41 Mae Pwyllgor Gweithlu, Datblygu Sefydliadol a Digidol y Bwrdd Iechyd yn cael amrywiaeth dda o wybodaeth am berfformiad, ond mae angen cryfhau goruchwyliaeth ar gyflawni ac effaith Cynllun Nodau, Dulliau a Deilliannau (GMO) y gweithlu, gan mai ychydig iawn o adrodd sy'n digwydd ar hyn o bryd.

## Adolygu trefniadau arbed costau

42 Fe wnaeth fy adolygiad archwilio pa un a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull effeithiol o adnabod, cyflawni a monitro cyfleoedd cynaliadwy i arbed costau. Fe wnaeth ystyried effaith y trefniadau hyn ar sefyllfa diwedd blwyddyn y Bwrdd Iechyd yn 2023-24 ac amlygu ble y gallai fod angen cryfhau trefniadau ar gyfer 2024-25 a'r tu hwnt i hynny.

43 Canfu fy ngwaith fod y Bwrdd Iechyd yn deall y ffactorau sy'n dylanwadu ar ei gostau a'i fod wedi cyflawni ei ddiffyg a reolir ar gyfer 2023-24, er y bu dibyniaeth fawr ar enillion cyfrifyddu anghylchol. Er ei fod wedi adnabod dull newydd o adnabod arbedion o ran costau, ceir cyfleoedd o hyd i gryfhau'r trefniadau hyn ymhellach i greu cynlluniau hyfyw sy'n dwyn arbedion cynaliadwy yn y tymor byr a hwy.

44 Mae gan y Bwrdd Iechyd hanes gwael yn gyffredinol o gyrraedd ei dargedau arbedion ar y cyfan a chyflawni arbedion cylchol, yn enwedig. Bydd hyn, ynghyd â bylchau o ran sgiliau a chapasiti ar draws y sefydliad a diffyg eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau ar gyfer cyflawni arbedion, yn gwneud cyrraedd ei dargedau arbedion yn 2024-25 yn fwy o her byth.

45 Nid yw dull y Bwrdd Iechyd o fonitro a thracio arbedion o ran costau, a chraffu ac adrodd arnynt, yn arwain at berfformiad ariannol gwell ar draws y sefydliad. O ganlyniad, mae angen iddo ddwyn grwpiau gwasanaethau a chyfarwyddiaethau corfforaethol i gyfrif yn well am gyflawni arbedion yn wael a chryfhau ei ddull o adnabod arfer gorau a dysgu gwersi o gynlluniau arbedion sydd wedi methu â chyflawni arbedion.

## Adolygiad o lywodraethu gweithredol

46 Fe ganolbwyntiodd fy adolygiad ar bedwar grŵp gwasanaeth y Bwrdd Iechyd a'u trefniadau i oruchwylio cyllid, perfformiad ac ansawdd a diogelwch gwasanaethau, a'r llifoedd sicrwydd o'r grwpiau gwasanaethau i'r Bwrdd a'i bwyllgorau.

47 Canfu fy ngwaith fod angen cryfhau trefniadau llywodraethu gweithredol yng ngrwpiau gwasanaethau'r Bwrdd Iechyd.

48 Er bod strwythurau arweinyddiaeth eglur yn eu lle, a bod peth cynnydd yn cael ei wneud gyda recriwtio parhaol i rolau arwain, roedd nifer uchel o swyddi gwag a phenodiadau interim o hyd. Roedd hyn yn arwain at ansefydlogrwydd mewn timau. Roedd y broses o gyflwyno'r rhaglen Ailddylunio Gwasanaethau Meddygol Acíwt wedi cael ei rhwystro hefyd gan ddiffyg cynllun gweithredu manwl a goruchwyliaeth gyfyngedig gan y Bwrdd.

49 Er bod trefniadau llywodraethu eglur o fewn grwpiau gwasanaethau, roedd newidiadau ym maint a chymhlethdod tri o'r pedwar grŵp gwasanaeth wedi arwain at fwy o lwyth gwaith yr oedd timau'n cael trafferth ei reoli. Roedd pwysau o ran capasiti, a oedd yn gysylltiedig â mynychder cyfarfodydd, yn arwain at broblemau gyda chysondeb prosesau adrodd, amseroldeb papurau a materion gyda phresenoldeb.

50 Roedd angen cryfhau'r trefniadau ar gyfer uwchgyfeirio pryderon i sicrhau bod isadrannau a chyfarwyddiaethau'n gwybod yn glir pryd y mae gofyn uwchgyfeirio materion at y grwpiau gwasanaethau, ac i gyflwyno llwybr uwchgyfeirio ffurfiol o fyrddau rheoli'r grwpiau gwasanaethau i Fwrdd Rheoli'r Bwrdd Iechyd. Mae angen i'r mecanweithiau i hwyluso gweithio traws-sefydliadol a galluogi grwpiau gwasanaethau i gydweithio ar draws ffiniau fod yn fwy effeithiol a chael eu ffurfioli'n fwy hefyd, o ystyried bod y trefniadau hyn yn rhai ad hoc i raddau helaeth ar adeg ein gwaith ni.

51 Roedd cyfleoedd i gryfhau'r systemau sicrwydd o fewn grwpiau gwasanaethau. Roedd hyn yn cynnwys angen i wella'r modd yr adroddir ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau ac i sicrhau bod data ar ansawdd a diogelwch yn gyfoes ac yn cynnwys metrigau, mesurau a thargedau perthnasol. Canfuwyd hefyd fod gan grwpiau gwasanaethau drefniadau anghyson ar gyfer rheoli risg. Roedd angen diweddaru cofrestrau risgiau gweithredol ac roedd angen i gamau lliniaru, graddfeydd amser a deilliannau bwriadedig fod wedi'u nodi'n fwy eglur ynddynt.

## Adolygiad dilynol o wasanaethau dilynol i gleifion allanol

52 Fe wnaeth fy adolygiad archwilio i ba raddau y mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi fy argymhellion blaenorol ynghylch gwasanaethau dilynol i gleifion allanol ar waith.

53 Canfu fy ngwaith fod y Bwrdd Iechyd yn dechrau gwneud gwelliannau i'w wasanaethau i gleifion allanol. Roedd wedi:

- datblygu Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cleifion Allanol sy'n nodi'n glir beth yw dull y Bwrdd Iechyd o wella perfformiad gwasanaethau cleifion allanol, yn ogystal ag ymdrin â'r ôl-groniad o apwyntiadau dilynol;
- cyrraedd targed y Gweinidog i sicrhau nad oes unrhyw gleifion yn aros am yn hwy na 52 wythnos am eu hapwyntiad cyntaf fel claf allanol; ac wedi
- cryfhau trefniadau llywodraethu sy'n ategu'r broses o ddarparu gwasanaethau cleifion allanol trwy greu Bwrdd Gwasanaethau Cleifion Allanol i lywio'r broses o gyflawni'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cleifion Allanol.

54 Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi cynyddu'r defnydd o lwybrau 'Sylw yn ôl Symptomau[2]' ac 'Apwyntiad Dilynol ar Gais y Claf[3]', yn ogystal â nifer o ddatrysiadau digidol sydd â'r potensial i gynyddu effeithlonrwydd a gwella profiad cleifion. Fodd bynnag, mae'r newidiadau a ysgogwyd gan y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cleifion Allanol yn newydd, gyda phrosiectau ar gam cynnar o ran eu cyflawni, a dim ond ar gyfer y flwyddyn 2023-24 y cafodd cyllid i gefnogi'r rhaglen ei sicrhau.

55 O'r wyth argymhelliad gwreiddiol o'n hadroddiad yn 2015, mae pum argymhelliad wedi cael eu disodli oherwydd newidiadau yn y cynlluniau a'r trefniadau cyflawni sefydliadol ar gyfer gwelliannau i wasanaethau cleifion allanol. O'r tri sy'n weddill, nid yw'r un ohonynt wedi cael ei gwblhau, gyda gweithredu cyfyngedig neu ddim gweithredu ers ein gwaith blaenorol.

56 Canfu fy ngwaith fod mecanweithiau annigonol yn eu lle i adrodd yn rheolaidd wrth y Bwrdd neu bwyllgorau ar risgiau clinigol sy'n gysylltiedig ag oedi gydag apwyntiadau dilynol. Ers fy ngwaith blaenorol, ceir niferoedd sylweddol o gleifion sy'n aros am apwyntiad dilynol yn y Bwrdd Iechyd o hyd. Mae llawer mewn arbenigeddau sy'n rheoli cyflyrau risg uchel. Rwy'n dal i fod yn bryderus ynghylch lefel y risg a'r niwed posibl i gleifion o ganlyniad i'r oedi yma.

57 Canfu fy ngwaith maes hefyd ddull anghyson o ddilysu rhestrau aros ar gyfer apwyntiadau dilynol yn glinigol ac yn weinyddol ym mhob arbenigedd. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd wedi targedu dau arbenigedd, sef offthalmoleg a chardioleg, lle ceir risg arbennig y bydd cleifion yn dioddef niwed na ellir ei wrthdroi oherwydd oedi gydag apwyntiadau dilynol.

58 Ni chanfu fy ngwaith ryw lawer o dystiolaeth bod gwerthuso'n cynnwys ffocws ar arbedion posibl, ac nad oes rhyw lawer o adrodd ar gynnydd gyda'r prosiectau a'r mentrau ar lefel y Bwrdd a phwyllgorau. Mae cyfle o hyd i'r Bwrdd Iechyd werthuso canfyddiadau am newidiadau i wasanaethau ymhellach.

## Asesiad strwythuredig

59 Fe wnaeth fy nhîm archwilio trefniadau corfforaethol y Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol, ac yn ddarbodus, gyda ffocws penodol ar y canlynol: tryloywder, effeithiolrwydd, a chydlyniad y Bwrdd; systemau sicrwydd corfforaethol; dull cynllunio corfforaethol; a dull corfforaethol o reoli adnoddau ariannol. Rhoddodd archwilwyr sylw hefyd i gynnydd a wnaed i ymdrin ag argymhellion blaenorol.

60 Ar adeg fy ngwaith asesu strwythuredig, roedd y Bwrdd Iechyd yn destun monitro uwch (Lefel 3) ar gyfer gwasanaethau mamolaeth ac newyddenedigol yn ogystal

[2] Mae'r llwybr Sylw yn ôl Symptomau'n cefnogi cleifion â chyflyrau byrdymor. Mae'n galluogi'r Bwrdd Iechyd i ryddhau claf i mewn i'r gymuned yn gynharach ac yn eu galluogi i drefnu apwyntiad os oes angen, megis pan fo symptomau'n ailymddangos.

[3] Mae Apwyntiad Dilynol ar Gais Claf yn darparu mynediad ar gyfer cleifion â chyflyrau hirdymor cronig pan fo angen hynny arnynt.

ag ar gyfer cyllid, strategaeth, a chynllunio. Roedd y Bwrdd Iechyd wedi cael ei roi mewn statws Ymyrraeth a Dargedir (Lefel 4) hefyd ar gyfer perfformiad a deilliannau. Ym mis Tachwedd 2024, cafodd cyllid, strategaeth, a chynllunio eu huwchgyfeirio ymhellach i statws ymyrraeth a dargedir (Lefel 4) dan drefniadau uwchgyfeirio ac ymyrryd Llywodraeth Cymru.

## Dull cynllunio corfforaethol

61 Fe wnaeth fy ngwaith ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull cynllunio corfforaethol cadarn. Rhoddais sylw arbennig i drefniadau'r sefydliad ar gyfer:

- cynhyrchu a goruchwylio datblygiad strategaethau a chynlluniau corfforaethol, gan gynnwys y Cynllun Tymor Canolig Integredig; a
- goruchwylio'r broses o gyflawni strategaethau a chynlluniau corfforaethol.

62 Canfu fy ngwaith fod gan y Bwrdd Iechyd weledigaeth hirdymor y cytunwyd arni, sy'n nodi'r dyhead eglur i'r Bwrdd Iechyd fod yn sefydliad o ansawdd da, ond nad oes ganddo strategaeth hirdymor. I roi cymorth i wireddu ei weledigaeth, mae gan y Bwrdd Iechyd nifer o strategaethau a chynlluniau galluogol, megis y Strategaeth Ystadau 10 mlynedd, y Strategaeth Ddigidol 10 mlynedd, y Cynllun Gwasanaethau Clinigol 2019-24, a'r Strategaeth Pobl 5 mlynedd newydd a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Chwefror 2024. Er bod y strategaethau hyn wedi eu hysgrifennu'n dda ac yn cynnwys bwriadau da, nid ydynt yn cyd-fynd â'i gilydd ac, mewn rhai achosion, nid oes cynlluniau eglur ar gyfer eu rhoi ar waith.

63 Mae angen i'r Bwrdd Iechyd ddatblygu dull cynllunio strategol mwy cydlynol a drefnir gan strategaeth system gyfan hirdymor newydd sy'n canolbwyntio ar iechyd y boblogaeth, sy'n rhoi ei heffaith i weledigaeth y Bwrdd Iechyd ac sy'n rhoi cymorth i ddatblygu gwasanaethau gofal iechyd sy'n glinigol ac ariannol gynaliadwy. Dylai'r strategaeth adeiladu ar y gwaith a wnaed yn barod i ddatblygu'r strategaethau a chynlluniau galluogol a chynnwys ffocws cryf ar iechyd y boblogaeth ac atal. Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd adolygu ei strategaethau a chynlluniau presennol i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r strategaeth hirdymor newydd. Mae gan y Bwrdd Iechyd amcanion llesiant eglur ond mae angen iddo wella ei drefniadau i fonitro'r modd y cânt eu cyflawni.

64 Mae'r Bwrdd Iechyd wrthi ar hyn o bryd yn gweithio i Gynllun Blynyddol ar gyfer 2024-25 gan nad oedd yn gallu cyflwyno Cynllun Tymor Canolig Integredig tair blynedd ariannol fantoledig i Lywodraeth Cymru. Ar adeg ysgrifennu, roedd Cynllun Blynyddol 2024-25 yn dal heb ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, oherwydd sefyllfa ariannol y sefydliad a oedd yn gwaethygu a'r diffyg a ragwelid ar gyfer 2024-25. Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau da'n gyffredinol i fonitro'r modd y cyflawnir cynlluniau a strategaethau corfforaethol, ond mae cyfleoedd o hyd i gryfhau'r trefniadau hyn ymhellach.

## Dull corfforaethol o reoli adnoddau ariannol

65 Fe wnaeth fy ngwaith ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o reoli ei adnoddau ariannol. Rhoddais sylw arbennig i drefniadau'r sefydliad ar gyfer:

- cyflawni ei amcanion ariannol;
- goruchwylio cynllunio ariannol;
- goruchwylio rheolaeth ariannol; a
- goruchwylio perfformiad ariannol.

66 Canfu fy ngwaith fod sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2024-25 yn dal i fod yn her eithriadol, a bod angen gweithredu ar frys i gyflawni cynlluniau arbedion yn llawn, yn ogystal â dwyn deiliaid cyllidebau i gyfrif am gyrraedd targedau ariannol i atal dirywiad pellach.

67 Ni chyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei amcanion a dyletswyddau ariannol ar gyfer 2023-24, gan adrodd ar ddiffyg o £16.8 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn yn erbyn ei derfyn adnoddau refeniw. Felly, torrodd y Bwrdd Iechyd ei ddyletswydd i adennill costau dros y cyfnod treigl o dair blynedd rhwng 2021 a 2024, gyda diffyg cronnus o £39.3 miliwn. Fodd bynnag, fe gyflawnodd warged bach o £55,000 yn erbyn ei derfyn adnoddau cyfalaf.

68 Mae Cynllun Blynyddol y Bwrdd Iechyd yn nodi diffyg rhagamcanol o £50.8 miliwn ar gyfer 2024-25. Mae hyn yn sylweddol bell o'r cyfanswm diffyg a reolir o £17 miliwn a ddisgwylid gan Lywodraeth Cymru. Mae'r sefyllfa o ran y diffyg ar ddiwedd y flwyddyn yn golygu y bydd y Bwrdd Iechyd yn methu â chyflawni ei ddyletswyddau ariannol mewn perthynas â'i derfyn adnodau refeniw am y flwyddyn ariannol hon, a'r cyfnod treigl o dair blynedd rhwng 2022 a 2025.

69 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau corfforaethol da yn gyffredinol ar gyfer goruchwylio a chraffu ar reolaeth ariannol a'i sefyllfa ariannol. Fodd bynnag, mae angen iddo gyflawni gwelliant sylweddol yn ei drefniadau i ddwyn deiliaid cyllidebau i gyfrif am gyrraedd targedau ariannol.

## Systemau sicrwydd corfforaethol

70 Fe wnaeth fy ngwaith ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o reoli risgiau, perfformiad, ac ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Rhoddais sylw arbennig i drefniadau'r sefydliad ar gyfer:

- goruchwylio risgiau strategol a chorfforaethol;
- goruchwylio perfformiad sefydliadol;
- goruchwylio ansawdd a diogelwch gwasanaethau; a
- thracio argymhellion.

71 Canfu fy ngwaith fod y Bwrdd Iechyd yn y broses o roi Fframwaith Sicrwydd newydd ar waith ar gyfer y Bwrdd, gyda chysylltiadau cryfach ag amcanion strategol y sefydliad. Mae'r trefniadau ar gyfer datblygu a chadw'r gofrestr risgiau

corfforaethol yn dal i fod yn rhesymol; fodd bynnag, mae gofyn gwella rheolaeth ar risgiau gweithredol.

72 Er bod ganddo Fframwaith Rheoli Perfformiad eglur a threfniadau gweddol effeithiol ar gyfer adrodd ar berfformiad wrth y Bwrdd, mae'r Bwrdd Iechyd yn dal i brofi heriau o ran perfformiad mewn nifer o feysydd. Mae angen gwelliant mewn trefniadau ar gyfer dwyn grwpiau gwasanaethau a chyfarwyddiaethau corfforaethol i gyfrif am gyllid a pherfformiad.

73 Mae'r Bwrdd Iechyd yn dal i fod â threfniadau da ar gyfer tracio argymhellion archwilio mewnol ac allanol. Fodd bynnag, mae angen iddo wneud mwy i ymdrin ag argymhellion hirsefydlog a gwella'r broses ar gyfer tracio argymhellion a wnaed gan reoleiddwyr eraill.

## Tryloywder, effeithiolrwydd, a chydlyniad y Bwrdd

74 Fe wnaeth fy ngwaith ystyried a yw Bwrdd y Bwrdd Iechyd yn cynnal ei fusnes yn briodol, yn effeithiol, ac yn dryloyw. Rhoddais sylw arbennig i'r canlynol:

- Tryloywder cyhoeddus busnes y Bwrdd
- Trefniadau i roi cymorth i gyflawni busnes y Bwrdd
- Strwythur, busnes, cyfarfodydd, a llifoedd sicrwydd y Bwrdd a phwyllgorau
- Ymrwymiad y Bwrdd i glywed gan staff, defnyddwyr, rhanddeiliaid eraill
- Sgiliau'r Bwrdd, ei brofiadau, ei gydlyniad, a'i ymrwymiad i wella

75 Canfu fy ngwaith fod y Bwrdd Iechyd yn dal i fod yn ymrwymedig i gynnal ei fusnes mewn modd agored. Fodd bynnag, ceir cyfleoedd o hyd i wella tryloywder cyhoeddus ymhellach, gan nodi bod y Bwrdd Iechyd wedi colli'r gallu i ffrydio ei gyfarfodydd yn fyw eleni oherwydd diweddariad i'w systemau gweithredu. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i gadw'r materion mwyaf sensitif yn ôl ar gyfer sesiynau preifat y Bwrdd a phwyllgorau. Mae crynodeb o drafodaethau a gynhaliwyd yng nghyfarfodydd preifat y Bwrdd yn dal i gael ei gyflwyno fel rhan o'r Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol a gyflwynir yng nghyfarfodydd cyhoeddus dilynol y Bwrdd. Mae papurau cyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd yn dal i gael eu cyhoeddi saith niwrnod cyn pob cyfarfod. Fodd bynnag, canfuom enghreifftiau lle nad oedd rhai o bapurau'r pwyllgorau ar gael yn gyhoeddus cyn y cyfarfodydd neu ar ddiwrnod y cyfarfod.

76 Ceir Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog ffurfiol, cyfoes, sydd ar gael yn gyhoeddus gyda thystiolaeth o gydymffurfio ac a adolygir o leiaf yn flynyddol i sicrhau eu bod yn adlewyrchu trefniadau cyfredol. Ceir hefyd brosesau a threfniadau goruchwylio eglur i sicrhau y cydymffurfir â datganiadau o fuddiant a bod polisïau'n cael eu diweddaru'n gyson.

77 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud newidiadau cadarnhaol i strwythur ei bwyllgorau a chylch cyfarfodydd pwyllgorau. Fodd bynnag, efallai y bydd angen i'r Bwrdd Iechyd ailystyried strwythur ei bwyllgorau unwaith y bydd gwaith ar strategaeth hirdymor wedi'i diweddaru wedi cael ei gwblhau. Er bod cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau'n cael eu cadeirio'n dda, eu cynnal yn briodol, a'u hategu gan bapurau

o ansawdd da fel rheol, ceir cyfle i wella'r modd y cynllunnir agendâu i sicrhau nad yw eitemau'n cael eu rhuthro neu eu hanwybyddu.

78 Mae'r Bwrdd yn dal i fod yn ymrwymedig i glywed gan gleifion, staff a defnyddwyr gwasanaethau. Fodd bynnag, mae angen i'r Bwrdd Iechyd wella'r modd yr adroddir ar y themâu a'r camau gweithredu sy'n codi o deithiau cerdded y Bwrdd wrth y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch.

79 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd cadarnhaol o ran penodi'n barhaol i uwch swyddi allweddol i ddarparu sefydlogrwydd y mae ei ddirfawr angen. Fodd bynnag, ceir cyfleoedd o hyd i ailystyried portffolio'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol i sicrhau eu bod yn cadw eu hannibyniaeth a'u gallu i wasanaethu'r Bwrdd yn effeithiol.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

**Arddangosyn 2: adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf**

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r adroddiadau a gyhoeddwyd i'r Bwrdd Iechyd ers yr Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf.

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol | Gorffennaf 2024 |
| Barn ynglŷn â'r Datganiadau Ariannol | Gorffennaf 2024 |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol y Cronfeydd Elusennol a'r Farn ynglŷn â Datganiadau Ariannol y Cronfeydd Elusennol | Ionawr 2025 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Adolygiad Dilynol o Ofal Sylfaenol | Mehefin 2024 |
| Adolygiad o Drefniadau Cynllunio'r Gweithlu | Mehefin 2024 |
| Adolygiad o Drefniadau Arbed Costau | Medi 2024 |
| Adolygiad o Lywodraethu Gweithredol | Medi 2024 |
| Adolygiad o Wasanaethau Dilynol i Gleifion Allanol | Hydref 2024 |

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| Asesiad Strwythuredig 2024 | Ionawr 2025 |
| **Arall** | |
| Cynllun Archwilio 2024 | Ebrill 2024 |

Roedd fy rhaglen ehangach o astudiaethau gwerth-am-arian cenedlaethol yn 2024 yn cynnwys adolygiadau a oedd yn canolbwyntio ar y GIG a thestunau sy'n rhychwantu'r sector cyhoeddus cyfan. Ariennir yr astudiaethau hyn yn nodweddiadol trwy Gronfa Gyfunol Cymru ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i gefnogi ei waith o ran craffu ar wariant cyhoeddus. Mae'r adroddiadau ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

**Arddangosyn 3: gwaith archwilio perfformiad sy'n dal i fynd rhagddo**

Ceir nifer o archwiliadau o berfformiad sy'n dal i fynd rhagddynt yn y Bwrdd Iechyd. Dangosir y rhain yn y tabl canlynol, gyda'r dyddiadau pan amcangyfrifir cwblhau'r gwaith.

| Adroddiad | Amcangyfrif o'r dyddiad cwblhau |
|---|---|
| Adolygiad o Adferiad Gwasanaethau Gofal wedi'i Gynllunio | Mawrth 2025 |
| Gofal Brys ac Argyfwng: Llif allan o'r ysbyty – Rhanbarth Gorllewin Morgannwg | Ebrill 2025 |
| Cynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion: Diweddariad ar gynnydd | Ebrill 2025 |
| Gofal brys ac argyfwng: Trefniadau ar gyfer rheoli'r galw | Ebrill 2025 |

| Adroddiad | Amcangyfrif o’r dyddiad cwblhau |
|---|---|
| Adolygiad o Drawsnewid Digidol | Gorffennaf 2025 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Roedd Cynllun Archwilio 2024 yn nodi'r ffi archwilio arfaethedig o £441,160 (heb gynnwys TAW).

Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol, ar y sail bod peth gwaith yn dal i fod ar y gweill, yn gyson â'r ffi a nodwyd yn y cynllun, er ein bod wedi dynodi ein bwriad i roi ad-daliad i'r Bwrdd Iechyd am ein gwaith archwilio perfformiad arfaethedig ar lywodraethu ansawdd ac yn cynnwys y gwaith yng Nghynllun Archwilio 2025. £25,291 yw swm yr ad-daliad.

Hefyd, yn 2022-23 fe gofiwch ein bod wedi gweithredu dull archwilio a oedd yn sylfaenol wahanol ar gyfer ein gwaith archwilio ariannol, a oedd yn ofynnol gan safonau archwilio rhyngwladol newydd. Roedd hyn yn golygu bod angen cymysgedd cyfoethocach, mwy costus o sgiliau a adlewyrchwyd mewn ffioedd uwch. Wrth i'r dull newydd hwn fwrw gwreiddiau, rydym wedi adnabod rhai mesurau effeithlonrwydd a fydd yn ein galluogi i ddarparu ad-daliad o £6,178 ar gyfer ein gwaith archwilio ariannol.

# Atodiad 3

## Risgiau mewn perthynas â'r archwiliad o'r cyfrifon

**Arddangosyn 4: risgiau mewn perthynas â'r archwiliad o'r cyfrifon**

Roedd fy Nghynllun Archwilio ar gyfer 2024 yn nodi'r risgiau o gamddatganiadau perthnasol a/neu afreoleidd-dra mewn perthynas â'r archwiliad o gyfrifon y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2023-24. Mae'r tabl isod yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut yr aethpwyd i'r afael â hwy fel rhan o'r archwiliad.

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Mae'r risg y gallai rheolwyr wrthwneud rheolaethau'n bresennol ym mhob endid. O ystyried y ffordd anrhagweladwy y gallai gwrthwneud o'r fath ddigwydd, tybir bod hon yn risg arwyddocaol [ISA 240.31-33]. | Bydd y tîm archwilio:<br>• yn profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• yn adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer gwyrdueddiadau; ac<br>• yn gwerthuso'r sail resymegol ar gyfer unrhyw drafodiadau arwyddocaol y tu allan i gwrs arferol busnes. | Fe wnaeth fy nhîm archwilio:<br>• brofi cofnodion dyddlyfr;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu, yn enwedig taliadau gofal sylfaenol; ac<br>• ni wnaethant adnabod unrhyw drafodiadau y tu allan i gwrs arferol busnes.<br><br>Ni chododd unrhyw faterion perthnasol o'r gwaith a wnaed. |
| Ceir risg o gamddatganiad perthnasol oherwydd twyll mewn gwariant a chan hynny caiff ei thrin fel risg arwyddocaol [PN 10]. | Byddwn:<br>• yn profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol; ac<br>• yn profi gwariant yn sylweddol, ac yn ei adolygu ar gyfer cyflawnrwydd, i | Fe wnaeth fy nhîm archwilio:<br>• brofi cofnodion dyddlyfr;<br>• profi gwariant yn sylweddol; a<br>• phrofi torbwynt gwariant. |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| | sicrhau bod yr holl wariant wedi ei gofnodi; ac<br>• yn profi torbwynt gwariant i ddarparu sicrwydd bod eitemau wedi eu cofnodi yn y flwyddyn gywir. | Ni chododd unrhyw faterion arwyddocaol o'r gwaith a wnaed. |
| Mae'n ofynnol i Fyrddau Iechyd Lleol (BILlau) gyflawni dwy ddyletswydd ariannol statudol – a adwaenir fel y ddyletswydd gyntaf a'r ail ddyletswydd.<br>Ceir risg arwyddocaol y byddwch yn methu â chyflawni eich dyletswydd ariannol gyntaf sy'n ei gwneud yn ofynnol i chi adennill costau dros gyfnod o dair blynedd. Mae'r sefyllfa ym mis 11 yn dangos diffyg yn y flwyddyn hyd yma o £41.1 miliwn a diffyg a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn o £17.1 miliwn (sy'n gyson â'r cyfanswm a reolir a gyhoeddwyd gan y Gweinidog). Mae hyn, ynghyd â'r alldroeon ar gyfer 2021-22 a 2022-23, yn rhagfynegi diffyg dros dair blynedd o £39.7 miliwn.<br>Lle'r ydych yn methu â chyflawni'r ddyletswydd ariannol hon, byddwn yn gosod adroddiad o sylwedd ar y datganiadau ariannol sy'n amlygu'r methiant ac yn amodi eich | Byddwn yn parhau i fonitro sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2023-24 a'r sefyllfa gronnus dros dair blynedd hyd at 31 Mawrth 2024, ac yn ystyried a gyflawnwyd y ddwy ddyletswydd ariannol.<br>Byddwn yn canolbwyntio ein gwaith profi ar feysydd yn y datganiadau ariannol a allai gynnwys gwyrduedd o ran yr hyn yr adroddwyd arno. | Fe wnaeth fy nhîm archwilio adolygu trafodiadau diwedd blwyddyn, yn enwedig croniadau a'r torbwynt. Ni chododd unrhyw faterion arwyddocaol o'r gwaith a wnaed.<br><br>Dewisais osod adroddiad o sylwedd ar y datganiadau ariannol, sy'n egluro'r methiant i adennill costau dros gyfnod o dair blynedd ac amgylchiadau hynny, a'r methiant i fod â chynllun tair blynedd cymeradwy. |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a’r canlyniad |
| --- | --- | --- |
| barn ynglŷn â rheoleidd-dra.<br>Mae eich pwysau ariannol cyfredol yn cynyddu’r risg y gallai dyfarniadau ac amcangyfrifon rheolwyr fod yn wyrdueddol mewn ymdrech i gyflawni'r ddyletswydd ariannol.<br>Mae’r ail ddyletswydd ariannol yn ei gwneud yn ofynnol i BILlau baratoi cynllun tymor canolig integredig tair blynedd treigl a chael ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru. Os byddwch yn methu â chyflawni’r ddyletswydd ariannol hon, byddwn yn gosod adroddiad o sylwedd ar y datganiadau ariannol sy’n amlygu hyn. | | |
| O 1 Rhagfyr 2023, mae’r Gofrestr Colledion a Thaliadau Arbennig (LaSPaR) a ddefnyddir i gyfrifo’r colledion a balansau llawer o’r darpariaethau yn y cyfrifon wedi cael ei datgomisiynu.<br>Ar gyfer gweddill 2023-24, bydd taenlen Excel enghreifftiol yn cael ei defnyddio i gofnodi colledion, taliadau arbennig ac i gyfrifo balansau diwedd blwyddyn.<br>Ceir risg bod trafodiadau a balansau sy’n gysylltiedig â cholledion a thaliadau arbennig wedi eu | Bydd y tîm archwilio:<br>• yn profi cyflawnrwydd a chywirdeb y broses o drosglwyddo data o’r system LaSPaR i’r taenlenni Excel;<br>• yn ystyried dyluniad a gweithrediad rheolaethau (os o gwbl) i liniaru gwallau;<br>• yn adolygu’r daenlen diwedd blwyddyn i sicrhau nad oes gwallau na materion arwyddocaol yn y modd y crynhowyd ffigyrau ar gyfer y cyfrifon; ac | Fe wnaeth fy nhîm archwilio adolygu’r broses o drosglwyddo data a phrofi’r trafodiadau ar ddiwedd y flwyddyn. Ni chododd unrhyw faterion perthnasol o’r gwaith a wnaed. |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| camddatgan yn berthnasol oherwydd:<br>• bod y broses trosglwyddo data rhwng y system LaSPaR a'r daenlen Excel enghreifftiol heb gael ei chwblhau a ddim yn gywir; a/neu<br>• fod y daenlen Excel enghreifftiol wedi camgyfrifo balansau oherwydd gwallau yn y daenlen/ gwallau modelu a/neu fod data wedi cael ei roi i mewn yn anghywir. | • yn adolygu trafodiadau yn ôl i dystiolaeth ategol (e.e. adroddiadau Quantum) ar sail samplau. | |
| Bernir bod rhai o'r datgeliadau yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol, megis cydnabyddiaeth ariannol uwch swyddogion ac aelodau annibynnol, yn rhai y dylid defnyddio lefel perthnasedd is wrth eu harchwilio. Felly mae'r datgeliadau hyn o ran eu hanfod yn fwy tueddol i gamddatganiadau perthnasol ac felly'n faes allweddol y rhoddir sylw iddo yn ystod yr archwiliad.<br>Bu nifer o newidiadau ar lefel uwch aelodau o staff yn ystod 2023-24, sy'n cynyddu'r risg o gamddatganiadau yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a/neu na ddilynwyd prosesau llywodraethu priodol | Byddwn yn archwilio'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol i wirio bod y Bwrdd Iechyd wedi adlewyrchu'r holl newidiadau hysbys i uwch swyddi, a bod y datgeliadau'n gyflawn ac yn gywir a bod prosesau llywodraethu priodol wedi cael eu dilyn. | Fe archwiliodd fy nhîm archwilio'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Ni chododd unrhyw faterion perthnasol o'r gwaith a wnaed. |

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.